WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyngor Sir y Fflint

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



**Cyf: 406A2010**
Llun trwy garedigrwydd Cyngor Sir y Fflint.
Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer  Cyngor Sir y Fflint gan Stephen Martin (Arweinydd Asesu Gwelliant) a Karen Lees (Cydlynydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

# Mae Cyngor Sir y Fflint wrthi'n hyrwyddo gwelliant er nad yw rhai trefniadau wedi'u datblygu'n llawn

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint  fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ar ôl cyfnod o gynnydd anghyson, ond, er y bu cynnydd, nid yw rhai trefniadau corfforaethol wedi'u datblygu'n llawn eto 6

Cyn 2007, roedd rheolaeth wleidyddol gliriach ond roedd y trefniadau rheoli corfforaethol yn anghyson a methodd y Cyngor ag ymdrin â rhai heriau allweddol 6

Ers 2007, mae arweinyddiaeth fwy effeithiol a phroffesiynol wedi gwella trefniadau rheoli corfforaethol ac wedi helpu i hyrwyddo gwelliant er gwaethaf sefyllfa wleidyddol fregus 7

Mae'r Cyngor yn dechrau pennu ei flaenoriaethau a'i drefniadau ar gyfer wynebu'r dyfodol ariannol ond mae'r sefyllfa wleidyddol a'r gallu i newid yn cyflwyno risgiau parhaus 7

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 9

Mae arweinwyr y Cyngor wedi hyrwyddo newid mewn ffordd gadarnhaol a bu llawer o welliannau i drefniadau ond nid ymdriniwyd yn llawn â rhai meysydd risg eto 9

Mae'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu yn ategu gwelliant mewn ffordd gadarnhaol o dan amgylchiadau anodd ac mae'r Cyngor yn gweithredu mewn ffordd adeiladol mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth 9

Mae'r fframwaith polisi a strategaeth, y defnydd o adnoddau, prosesau busnes a rheoli pobl yn datblygu ond nid ydynt yn ategu gwelliant yn llawn eto 12

# Crynodeb

1 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, sef cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni:

- Asesiad Corfforaethol - sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – i asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.

3 Yn y modd hwn gellir cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn ffurfio sail adroddiad blynyddol i ddinasyddion, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn ddiweddariad ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol a oedd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol: Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus Nodwyd effaith bosibl gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, dywedodd CLILC nad oedd modd dianc rhag y ffaith y byddai angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio ei gwariant cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir - ni ellir datrys y diffyg drwy effeithlonrwydd yn unig. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a sut y cânt eu darparu, gan ystyried dewisiadau ar gyfer cynyddu lefelau caffael yn hytrach na darparu gwasanaethau a chydweithio. Lluniwyd yr Asesiad Corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn: ‘A yw trefniadau Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?’

7 Gan mai hwn yw ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, ni fu'n bosibl gwneud llawer o waith mewn sawl maes. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod i roi diweddariad yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol, i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.



8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw:

- Mae Cyngor Sir y Fflint wrthi'n hyrwyddo gwelliant er nad yw rhai trefniadau wedi'u datblygu'n llawn eto.

9 Gwnaethom seilio ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i ategu gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad, yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ar ôl cyfnod o gynnydd anghyson, ond, er y bu cynnydd, nid yw rhai trefniadau corfforaethol wedi'u datblygu'n llawn eto; ac
- mae arweinwyr y Cyngor wedi hyrwyddo newid mewn ffordd gadarnhaol a bu llawer o welliannau i drefniadau ond nid ymdriniwyd yn llawn â rhai meysydd risg.

## Arolygiad arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur.

## Argymhellion

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella ar gyfer y Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur nac wedi argymell y dylai Gweinidogion Cymru gynorthwyo'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Meysydd ar gyfer gwella

12 Nododd yr asesiad y meysydd canlynol lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

| Arddangosyn 1: Meysydd ar gyfer gwella |
|---|
| C1 Adolygu trefniadau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad priodol cynghorwyr yn cael eu cynnal. |
| C2 Cwblhau'r gwaith ar Fframwaith Cynllun (Llywodraethu) y Cyngor. |
| C3 Datblygu'r broses er mwyn galluogi i adnoddau gael eu dyrannu yn unol â blaenoriaethau. |
| C4 Cwblhau Strategaeth Pobl 2009-2012 a chynllun gweithredu. |

# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ar ôl cyfnod o gynnydd anghyson, ond, er y bu cynnydd, nid yw rhai trefniadau corfforaethol wedi'u datblygu'n llawn eto

### Cyn 2007, roedd rheolaeth wleidyddol gliriach ond roedd y trefniadau rheoli corfforaethol yn anghyson a methodd y Cyngor ag ymdrin â rhai heriau allweddol

13 Yn ystod y cyfnod yn dilyn ei greu yn 1996 hyd at 2008, roedd rheolaeth wleidyddol glir o'r Cyngor. I ddechrau, etifeddodd y Cyngor broblemau ariannol ac o ganlyniad, bu'n rhaid datblygu strategaeth gyllidebol pedair blynedd. Arweiniodd y strategaeth hon at welliant graddol yn sefyllfa ariannol y Cyngor. Ar yr un pryd, roedd amrywiaeth o faterion llywodraethu a arweiniodd at ymchwiliadau gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a chyrff allanol eraill.

14 Ym mis Tachwedd 2004, cyflwynodd Taith tuag at Welliant y Comisiwn Archwilio yng Nghymru ddarlun cadarnhaol o'r Cyngor a daeth i'r casgliad er gwaethaf yr anawsterau a wynebodd, fod ganddo hanes da o ysgogi gwelliant.

15 Yn ystod y blynyddoedd dilynol, amlygodd rheoleiddwyr ac arolygwyr allanol ddarlun amrywiol o berfformiad ar draws gwahanol wasanaethau a'r angen am gamau gweithredu cryfach i ymdrin â nifer o faterion corfforaethol hollbwysig. Er y bu cynnydd mewn rhai materion, nid aeth yr arweinwyr gwleidyddol a'r swyddogion arweiniol i'r afael yn llawn â rhai o'r materion pwysig sy'n wynebu'r Cyngor.

16 Ymhlith y materion corfforaethol roedd yr angen i wella trefniadau rheoli corfforaethol cyffredinol y Cyngor, ymdrin â'r gallu strategol cyfyngedig, lleihau'r nifer fawr o benodiadau dros dro ac interim, a mynd i'r afael â'r flaenoriaeth a roddir i fuddiannau gwasanaeth a buddiannau plwyfol.

17 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd rhai gwasanaethau yn datblygu'n dda. Er enghraifft, yn 2005, yn ôl asesiad Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru roedd y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn dda ar y cyfan ac mewn sefyllfa dda i gynnal a gwella'r safon honno. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaethau eraill yn gwneud cymaint o gynnydd; cododd Swyddfa Archwilio Cymru bryderon sylweddol am wasanaethau yn y Gyfarwyddiaeth Cymuned a Thai ac yn 2005, yn ôl asesiad Estyn, roedd trefniadau mynediad i addysg a chynhwysiant cymdeithasol yn 'weddol' gyda rhagolygon 'ansicr' ar gyfer gwella.



**Ers 2007, mae arweinyddiaeth fwy effeithiol a phroffesiynol wedi gwella trefniadau rheoli corfforaethol ac wedi helpu i hyrwyddo gwelliant er gwaethaf sefyllfa wleidyddol fregus**

18 Ar ôl penodi Prif Weithredwr newydd yn 2007, datblygwyd rhaglen o newid sefydliadol ac ymrwymiad i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion corfforaethol.

19 Ers yr etholiadau lleol ym mis Mai 2008, bu'r Cyngor o dan arweiniad clymblaid o gynghrair o gynghorwyr annibynnol a grwpiau gwleidyddol eraill. Er bod y Glymblaid wedi etifeddu cyfres o flaenoriaethau yn seiliedig ar risg yr oedd yn gyfforddus â hwy, i ddechrau, nid oedd ganddi ei rhaglen glir ei hun o'r blaenoriaethau a'r polisïau roedd yn bwriadu eu rhoi ar waith. Bu cyfnod o raniadau a diffyg undod mewnol hefyd ymhlith nifer fach o aelodau etholedig a rhwng rhai o'r aelodau hyn a swyddogion.

20 Cwblhawyd cam cyntaf rhaglen newid sefydliadol a oedd yn cynnwys ailstrwythuro swyddi uwch reolwyr. Rhoddwyd cyfres newydd o ddulliau cynllunio a rheoli busnes ar waith wedi'u hanelu at alluogi mwy o ffocws ar flaenoriaethau strategol. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu dulliau newydd o ymdrin â rheoli risg, pennu targedau a chynllunio gwasanaethau, rhoi 'strategaeth pobl' ar waith, gweddnewid y system ar gyfer pennu cyllidebau a ffordd newydd, fwy corfforaethol o reoli cyllid ac asedau. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, cafodd yr awdurdod ganmoliaeth uchel yng ngwobrau Rhagoriaeth Cymru yn 2008-09 am welliannau i'r Cyngor cyfan.

21 Parhaodd adolygiadau o wasanaethau gan reoleiddwyr ac arolygwyr i nodi cryfderau nodedig ond hefyd feysydd lle roedd angen gwelliannau pellach. Ymhlith y meysydd hyn ar gyfer gwella roedd agweddau ar y strategaeth tai a'r gwasanaethau tai a chynlluniau ar gyfer moderneiddio ysgolion.

22 Ar 30 Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol.

23 Ar 30 Tachwedd 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'i Harchwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor. Nododd y Llythyr fod datblygiadau cadarnhaol yn parhau ond y byddai proses gliriach ar gyfer nodi uchelgeisiau allweddol y Cyngor a chysoni datblygiadau â hwy o fudd.

**Mae'r Cyngor yn dechrau pennu ei flaenoriaethau a'i drefniadau ar gyfer ymdrin â'r dyfodol ariannol ond mae'r sefyllfa wleidyddol a'r gallu i newid yn cyflwyno risgiau parhaus**

24 Ym mis Mai 2010, cymeradwyodd Gweithrediaeth y Cyngor Strategaeth Gymunedol ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod 2009 i 2019 a nododd hefyd Ddatganiad o Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth ar gyfer gweddill tymor y Cyngor ym mis Mai 2012.

25 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r rhaglen 'Dyfodol Sir y Fflint' sy'n darparu fframwaith ar gyfer ymdrin â'r gostyngiadau disgwyliedig mewn cyllid refeniw a chyfalaf. Mae dwy elfen i'r rhaglen: roedd y Rhaglen Newid yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd, ac roedd y Rhaglen Dewis yn anelu at ddewis y ffordd fwyaf effeithiol a chost-effeithiol o lywodraethu a darparu gwasanaethau.

26 Bydd y Rhaglen Newid yn canolbwyntio ar y posibiliadau hynny ar gyfer newid sy'n fewnol ac nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd. Caiff targed enillion effeithlonrwydd 'y gellir eu troi'n arian parod' ac 'na ellir eu troi'n arian parod' ei bennu ar gyfer pob un o'r themâu o dan y Rhaglen Newid. Pennwyd y targed y gellir ei droi'n arian parod ar gyfer y Rhaglen Newid ar lefel gychwynnol o £10 miliwn tybiannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd o 2011-12 i 2013-14.

27 Nod y Rhaglen Dewis yw dewis y ffyrdd mwyaf effeithiol a chost-effeithiol o lywodraethu a darparu gwasanaethau boed yn uniongyrchol neu ar ffurf partneriaeth a threfniadau caffael gyda llywodraeth leol, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Bydd gan y Rhaglen Dewis effaith uniongyrchol ac arwyddocaol ar y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd. Caiff targedau effeithlonrwydd penodol eu pennu ar gyfer y Rhaglen Dewis. Targed sy'n dod i'r amlwg o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer cydweithredu rhanbarthol yw 25 y cant o gyfanswm y 'bwlch' ariannu rhanbarthol ar gyfer y chwe awdurdod. Ar gyfer Sir y Fflint, byddai hyn gyfwerth â gostyngiad cost blynyddol drwy gydweithredu o £6 miliwn i £7 miliwn erbyn 2013-14.

28 Mae rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn cynnwys ymrwymiad y Cyngor i weithio drwy bartneriaethau er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac yn ymhelaethu ar yr ymrwymiad hwnnw. Mae cyswllt agos rhyngddi â rhaglen ranbarthol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Adlewyrchir ymrwymiad y Cyngor hefyd mewn nifer o ddatblygiadau a phrosiectau partneriaeth ar y cyd.

29 Mae'r datblygiadau hyn yn helpu'r Cyngor i ddarparu ffocws cliriach ac i baratoi i ymateb i heriau ariannol y dyfodol. Erys pryder o ran y gallu a'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni cyflymder a graddau'r newid y gallai fod ei angen a'r angen i fanteisio i'r eithaf ar drefniadau corfforaethol.



# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Mae arweinwyr y Cyngor wedi hyrwyddo newid mewn ffordd gadarnhaol a bu llawer o welliannau i drefniadau ond nid ymdriniwyd yn llawn â rhai meysydd risg eto

### Mae'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu yn ategu gwelliant mewn ffordd gadarnhaol o dan amgylchiadau anodd ac mae'r Cyngor yn gweithredu mewn ffordd adeiladol mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth

#### Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion arweiniol yn cefnogi gwelliant ond erys y sefyllfa wleidyddol yn fregus

**30** Pan ffurfiwyd y Glymblaid ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2008, nid oedd ganddi raglen glir o'i pholisïau a'i blaenoriaethau ei hun. Nid oedd gan y rhan fwyaf o aelodau Gweithrediaeth newydd y Cyngor brofiad blaenorol o fod yn rhan o weithrediaeth awdurdod lleol. Maent wedi datblygu eu rolau ac wedi dod yn gliriach o ran eu huchelgeisiau a'u blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r Glymblaid yn fregus o hyd gyda diffyg undod yn cymryd amser ac yn denu sylw.

**31** Yn ystod y cyfnod ers mis Mai 2008, mae'r Prif Weithredwr wedi darparu arweinyddiaeth reoli glir ac wedi'i ffocysu, ac wedi helpu'r Weithrediaeth i ddatblygu eu rolau ac i egluro blaenoriaethau. Mae hefyd wedi parhau â'r rhaglen newid a datblygu sefydliadol. Mae'r gwaith o ailstrwythuro swyddi uwch swyddogion wedi cyfrannu at y broses hon ac wedi arwain at well cyd-atebolrwydd ac arweinyddiaeth reoli. Mae'r prosesau busnes gwell a roddwyd ar waith wedi galluogi ffocws parhaus ar wella ac mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion anodd y mae angen eu datrys. Er enghraifft, gwnaed cynnydd o ran sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â dyfodol ei stoc tai. Fodd bynnag, methodd y Cyngor weithiau â chyflawni cyflymder y newid a fwriadwyd a bydd yn awyddus i barhau i ddatblygu cyfraniad uwch swyddogion ac arweinwyr gwleidyddol wrth lywio'r agenda gwella.

**32** Er bod amrywiol flaenoriaethau'r Cyngor wedi'u nodi mewn amrywiaeth o strategaethau, polisïau a chynlluniau, nodwyd Datganiad o Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth ar gyfer y cyfnod 2010-2012 gan y Weithrediaeth ym mis Mai 2010. Fe'i lluniwyd gan yr Arweinydd mewn partneriaeth ag aelodau'r Glymblaid a gyda chyngor a chanllawiau'r Prif Weithredwr ac uwch reolwyr. Mae'r rhestr o 10 blaenoriaeth llywodraethu a 30 blaenoriaeth gwasanaeth cyhoeddus yn amlygu rhai heriau sylweddol, rhai ymrwymiadau i'w haddasu er mwyn bodloni disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad neu ddisgwyliadau eraill, ac ymrwymiadau i wella'r ffordd y caiff y Cyngor ei rhedeg a'i berfformiad.

**33** Mae'r aelod etholedig ar swyddog arweiniol wedi cydnabod graddau tebygol yr her ariannol yn y dyfodol ac wedi cytuno ar raglen Dyfodol Sir y Fflint sy'n nodi fframwaith ar gyfer ymdrin â'r her ariannol a'r newid

sefydliadol. Mae'r arweinwyr hefyd yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu trefniadau cydweithredu rhanbarthol, yn enwedig drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**Mae'r trefniadau llywodraethu yn gyffredinol effeithiol ond mae rhai materion i ymdrin â hwy o hyd**

34 Mae'r Cyngor wedi bod yn awyddus i sicrhau ei fod yn dilyn trefniadau llywodraethu priodol ac yn ddiweddar cynhaliodd Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol hunanasesiad llywodraethu corfforaethol a chyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Cyfansoddiad ar yr hunanasesiad hwnnw ym mis Ebrill 2010. Nododd yr hunanasesiad feysydd lle roedd trefniadau priodol ar waith a chamau gweithredu i'w cymryd ar gyfer rhai meysydd eraill.

35 Mae rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig a swyddogion wedi'u diffinio'n dda ar y cyfan ac wedi'u deall gan y rhan fwyaf o aelodau etholedig ac uwch swyddogion Un maes lle na cheir cystal eglurder yw'r broses o benodi 'aelod eiriolwyr' a rolau'r unigolion hynny. Penodwyd saith 'eiriolwr' drwy wahanol brosesau i hyrwyddo meysydd llywodraethu (megis datblygu aelodau, a throsolwg a chraffu) a meysydd gwasanaeth a dinasyddion (megis TGCh, pobl hŷn, bioamrywiaeth). Bydd gweithgor yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfansoddiad mewn perthynas â'r mater hwn.

36 Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn rheolaidd ond mae'r broses gwneud penderfyniadau weithiau'n arafach nag y gallai fod. Er bod gan aelodau'r Weithrediaeth bortffolios penodedig, nid oes ganddynt rolau gwneud penderfyniadau dirprwyedig (ac eithrio mewn argyfwng). Yn yr un modd, mae'r cynllun dirprwyo i swyddogion wedi'i gyfyngu ac mae'r Hunanasesiad Llywodraethu Corfforaethol wedi nodi bod angen adolygu'r cynllun dirprwyo.

37 Mae trefniadau craffu wedi gwella ac mae'r pwyllgorau craffu yn herio penderfyniadau, ac yn ymgymryd â gwaith craffu cyn penderfyniadau. Mae nifer o grwpiau 'gorchwyl a gorffen' yn helpu i fonitro perfformiad, adolygu gwasanaethau a datblygu polisïau. Fodd bynnag, mae peth gwaith craffu yn canolbwyntio'n ormodol ar fanylion. Mae gan bwyllgorau trosolwg a chraffu flaen raglenni gwaith sydd wedi'u llywio'n rhannol gan raglen waith y Weithrediaeth ond maent yn cael bod rhaglen waith y Weithrediaeth yn cael ei gohirio ac felly bod rhaglen y pwyllgor craffu yn cael ei gohirio.

38 Ym mis Hydref 2008, cyflawnodd y Cyngor lefel gyntaf Siarter Datblygu Aelodau CLILC. Yn arbennig, cydnabuwyd bod gan y Cyngor weithgor datblygu aelodau cryf, rhaglen sefydlu ardderchog a'i fod yn cynnwys aelodau wrth greu eu disgrifiadau rôl. Fodd bynnag, nid yw wedi rhoi proses effeithiol o adolygiadau blynyddol ar waith eto i aelodau.

39 Fe'n hysbyswyd am bryderon ynghylch gwella safonau ymddygiad nifer fach o aelodau a'r ffaith bod ymdrin â phryderon o'r fath weithiau yn golygu nad oedd y Cyngor yn rhoi sylw i ymdrin â materion eraill. Nododd yr Hunanasesiad Llywodraethu Corfforaethol fod angen codi proffil Pwyllgor Safonau'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cyflwyno hyfforddiant gloywi ar Ganllawiau'r Cod Ymarfer. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i rai materion.



**Bydd ymagwedd adeiladol tuag at weithio mewn partneriaeth yn ategu gwelliannau yn y dyfodol**

40 Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan arwyddocaol wrth bennu 'gweledigaeth' a rhaglen newid i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRPB) y bwriedir iddynt wella gwasanaethau ac effeithlonrwydd, a chyflawni arbedion y gellir eu troi'n arian parod ar yr un pryd. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu pedwar bwrdd rhaglen i ganolbwyntio ar addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd, yr amgylchedd a gwasanaethau rheoleiddio, a gwasanaethau eraill (gan gynnwys gwasanaethau cymorth). Y Prif Weithredwr yw prif weithredwr nawdd bwrdd rhaglen y Bwrdd ar yr Amgylchedd a Gwasanaethau Rheoleiddio ac mae Cyfarwyddwyr eraill yn gwneud cyfraniadau sylweddol. Bydd y gwaith yn cynnwys ystyried y canlynol:

- modelau darparu gwasanaeth amgen;
- partneriaeth â chyrff allanol gan gynnwys y sector preifat;
- darparu gwasanaethau cydweithredol ag awdurdodau lleol eraill;
- gwasanaethau a gaiff eu rheoli gan y defnyddiwr;
- Ail-lunio Prosesau Busnes ac adolygu darbodusrwydd gwasanaethau;
- rhannu arfer gorau;
- caffael/comisiynu ar y cyd; a
- chynllunio dilyniant ar gyfer uwch benodiadau ar y cyd a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu gwasanaethau a rennir.

41 Mae'r byrddau rhaglen wedi'u sefydlu ac wedi nodi ffrydiau gwaith a lefelau arbedion targed. Gallai'r gwaith cynllunio rhanbarthol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd arwain at welliant sylweddol drwy gydweithio.

42 Mae'r Cyngor wedi arwain y gwaith o gydgysylltu Prosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r prosiect wedi gwneud cynnydd da gyda chynigion i gaffael datrysiad rheoli gwastraff cynaliadwy i bump awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn). Bydd y prosiect yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd tirlenwi a bydd yn lleihau'r tunelli o weddillion gwastraff a gaiff eu hanfon i safleoedd tirlenwi i'r eithaf. Mae'r gwaith o ddatblygu'r prosiect hyd yma yn adlewyrchu arfer cadarnhaol. Daeth adolygiad Gateway o'r achos busnes amlinellol dros y prosiect ym mis Ebrill 2010 i'r casgliad cyffredinol bod y prosiect mewn sefyllfa dda i lwyddo ar y pryd.

43 Mae'r Cyngor yn darparu sawl prosiect a gwasanaeth ar y cyd â chynghorau eraill gan gynnwys y Datrysiad Staff Asiantaeth a Reolir a thimau dyletswydd brys (gwaith cymdeithasol) ar y cyd â Wrecsam a Sir Ddinbych. Mae Sir y Fflint yn rhedeg y gwasanaeth llyfrgelloedd i ysgolion ar ran awdurdodau Clwyd gynt ac yn arwain y cynllun cynllunio trafnidiaeth ranbarthol cydweithredol (TAITH). Penodwyd Rheolwr Rhaglen i brosiect Dyfodol Sir y Fflint yn ddiweddar fel rhan o swydd ar y cyd ar gyfer rhaglen debyg ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

44 Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at waith partneriaeth rhanbarthol sy'n bodoli eisoes a gwaith partneriaeth arfaethedig drwy Fenter Gydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru ac mae'n ymwneud â

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru a ddaeth yn weithredol o 1 Ebrill 2010.

45 Mae Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLl) Sir y Fflint yn weithredol ac wrthi'n datblygu gwaith fel rhan o'i Gytundeb Cyflenwi Lleol cyntaf ar Leihau Carbon. Mae cydberthnasau yn gadarnhaol â phartneriaid BGLl er bod y broses ddiweddar o ailgyflunio'r cyrff iechyd wedi effeithio ar rai o'r trefniadau ar draws pob BGLl. Mae gweithgareddau gweithredol helaeth yn mynd rhagddynt ar y cyd ac mae gwaith rhwng y cynghorau a'r Bwrdd Iechyd bellach yn symud ymlaen yn gadarnhaol. Er mwyn helpu i hyrwyddo cydberthynas effeithiol rhwng awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd, mae cynghorau Gogledd Cymru wedi penodi Cynrychiolydd (Llysgennad) Rheoli Awdurdod Lleol Rhanbarthol ar Dîm Rheoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

46 Mae BGLl Sir y Fflint wedi mabwysiadu fframwaith llywodraethu partneriaethau strategol da. Mae'n cynnwys trefniadau ar gyfer ffurfio partneriaeth strategol neu ymuno ag unrhyw bartneriaeth strategol, systemau atebolrwydd, risgiau perfformiad a threfniadau rheoli adnoddau. Mae'n cynnwys protocolau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu ac ymdrin â chwynion a chanmoliaeth fel rhan o'r bartneriaeth. Disgwylir i gyrff partneriaeth gynnal adolygiad blynyddol o'r bartneriaeth a fydd yn asesu i ba raddau y mae pob corff yn cyflawni ei ganlyniadau terfynol dymunol. Mae'r fframwaith hefyd wedi'i fabwysiadu gan bartneriaethau eraill gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac mae'r potensial ganddo i fod yn enghraifft o arfer da.

## Mae'r fframwaith polisi a strategaeth, y defnydd o adnoddau, prosesau busnes a rheoli pobl yn datblygu ond nid ydynt yn ategu gwelliant yn llawn eto

### Mae fframwaith polisi strategol cliriach yn dod i'r amlwg er bod rhai agweddau yn datblygu o hyd

47 'Cymeradwywyd' y 'Weledigaeth Sirol' lefel uchel ar gyfer Sir y Fflint gan y BGLl ym mis Hydref 2009 a dyma yw sail Strategaeth Gymunedol wedi'i diweddaru 2009-2019. Mae'r weledigaeth a fabwysiadwyd yn cyfeirio at sir lle ceir:

- Ffyniant economaidd
- Gwella iechyd drwy bopeth a wnawn
- Dysgu a sgiliau am oes
- Byw'n gynaliadwy
- Cymunedau diogel a chefnogol

48 Mae'r Strategaeth yn darparu rhagor o wybodaeth am bob elfen o'r weledigaeth. Cymeradwyodd y Cyngor fersiwn terfynol y Strategaeth ym mis Mehefin 2010.

49 Nodir blaenoriaethau'r Cyngor mewn amrywiaeth o ddogfennau strategol (gan gynnwys y 'Weledigaeth Sirol'), strategaethau corfforaethol a chynlluniau busnes. Mae cyfres y Cyngor o ddogfennau polisi allweddol yn cynnwys y Strategaeth TGCh, Strategaeth Pobl a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Nid yw'r Cyngor wedi cwblhau'r broses o fabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol (CDU) eto. Ym mis Mawrth , cytunodd ar CDU drafft mewn egwyddor, yn amodol ar



broses o ystyried materion pellach. Cyflwynir adroddiad pellach i'r Cyngor maes o law.

50 Er bod y Cyngor wedi nodi amrywiaeth eang o flaenoriaethau ac amcanion yn ei amrywiol strategaethau, polisïau a chynlluniau, mae'n bosibl bod aelodau o'r cyhoedd, swyddogion ac aelodau etholedig wedi ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r dogfennau hyn a nodi prif flaenoriaethau'r Cyngor. Nododd Llythyr Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2008-09 fod angen blaenoriaethau gwleidyddol cytûn wedi'u mynegi'n gliriach. Cyfrannodd hyn at y broses o ddatblygu 'Datganiad o Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth 2010-12'. Mae'n cynnwys 10 o flaenoriaethau llywodraethu corfforaethol a pherfformiad a 30 o flaenoriaethau gwasanaeth. Dyma'r prif flaenoriaethau 'ar y pryd'. Nid ydynt o reidrwydd yn amcanion tymor hwy. Nid oes angen unrhyw fuddsoddiad ychwanegol ar bob un o'r blaenoriaethau. Bydd y blaenoriaethau yn llywio'r broses o ddatblygu rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn ogystal â chynlluniau busnes.

51 Yn 2009, cytunodd y Weithrediaeth ar fframwaith cynllunio newydd i'r Cyngor wedi'i anelu at uno uchelgais, blaenoriaethau a thargedau'r Cyngor â fframwaith llywodraethu cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys:

- fframwaith Cynllun y Cyngor (Llywodraethu);
- datganiadau blynyddol, gan gynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol; a
- chynlluniau gwasanaeth a chyfarwyddiaeth.

52 Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn cyflawni rhan o'r gofyniad i gyhoeddi cynllun gwella blynyddol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae'n darparu gwybodaeth am berfformiad y Cyngor, yr Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau (SARC), adroddiadau rheoleiddwyr ac arolygwyr a chynnydd gyda phartneriaethau rhanbarthol a lleol.

53 Mae Fframwaith Cynllun y Cyngor (Llywodraethu) yn uno gweledigaeth, nodau ac uchelgeisiau'r Cyngor â'r trefniadau llywodraethu a chynllunio busnes. Bydd datblygiadau diweddar, fel y Datganiad o Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth, mabwysiadu'r Strategaeth Gymunedol a sefydlu rhaglen Dyfodol Sir y Fflint, yn cyfrannu at y fframwaith. Cyflwynwyd amlinelliad o gynnwys y fframwaith i'r Weithrediaeth ym mis Ebrill 2010 mewn adroddiad a nodod y byddai cynnwys llawn a therfynol y fframwaith yn cael ei gynhyrchu fel datganiad canol blwyddyn yn ystod 2010.

**Mae'r Cyngor wedi elwa ar reolaeth ariannol gadarn ond bu pwysau sylweddol ar wasanaethau a rhywfaint o orwario yn 2008-10; mae'r Cyngor yn dechrau datblygu'r fframwaith i ymdrin â heriau ariannol a datblygu cynlluniau ariannol wedi'u cysylltu ag amcanion â blaenoriaeth**

54 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ni fu gan y Cyngor unrhyw broblemau sylweddol o ran ei sefyllfa ariannol ac ni fu'n rhaid iddo ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli cyllidebau. Ar 30 Medi 2009, cyhoeddwyd barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2008-09. Nododd y Llythyr Blynyddol ar gyfer yr un flwyddyn ddiffyg sicrwydd o ran pa un a fyddai cyllid roedd y Cyngor wedi'i fuddsoddi gyda Landsbanki a oedd yn destun

gweithdrefnau gweinyddu yn cael ei ad-dalu, a'r ffaith hefyd bod gan y Cyngor 356 o hawliadau yn ei erbyn mewn perthynas â chyflog cyfartal.

55 Bu rheolaeth gyllidebol yn effeithiol ar y cyfan er bod alldro 2009-10 yn dangos bod achosion o orwario sylweddol ym maes Gwasanaethau Amgylcheddol a Dysgu Gydol Oes wedi'u gwrthbwyso i raddau helaeth gan enillion effeithlonrwydd corfforaethol. Yn ystod 2009-10, gwnaed gor-ddyraniad o £1.1 miliwn i ysgolion uwchradd hefyd. Roedd yr achosion o orwario ym maes Gwasanaethau Amgylcheddol yn cynnwys costau cynnal a chadw na chyllidebwyd ar eu cyfer o ganlyniad i'r gaeaf arbennig o hir a garw. Bwriedir adennill y gordaliad i ysgolion dros gyfnod o dair blynedd drwy ddatblygiadau moderneiddio ac effeithlonrwydd ysgolion.

56 Mae'r aelodau etholedig a swyddogion yn chwarae rhan bwysig ym mhroses pennu cyllideb y Cyngor. Roedd y broses yn cynnwys asesu ceisiadau i'r gyllideb yn erbyn asesiad risg y Cyngor. Datblygwyd cyfres o egwyddorion ar gyfer gwaith cynllunio ariannol tymor canolig ac mae'r Cyngor yn dechrau defnyddio'r egwyddorion hynny i'w helpu i ddyrannu adnoddau. Yn 2009-10, yr ymagwedd wrth bennu'r gyllideb oedd parhau i roi blaenoriaeth i gynorthwyo ysgolion, cynorthwyo'r bobl ifanc hynny ag anableddau a oedd yn symud ymlaen i wasanaethau oedolion a darparu gofal i'r bobl hŷn yn ardal y sir. Ar gyfer 2010-11, dyrannodd y gyllideb £8 miliwn i ymateb i 'bwysau cyllidebol'. Categoreiddiwyd y pwysau hyn fel a ganlyn:

- Effaith economaidd
- Diffygion yn y gyllideb
- Mentrau buddsoddi i arbed
- Pwysau (gan gynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir)

57 Fodd bynnag, nododd y Llythyr Blynyddol ar gyfer 2008-09 fod gan y Cyngor systemau effeithiol ar gyfer nodi adnoddau ond bod angen gwneud mwy i gysoni adnoddau a blaenoriaethau ac yn y pen draw, fod yn rhaid i'r model ariannu ddechrau o flaenoriaethau'r Cyngor, gan ddyrannu iddynt mewn ffordd resymegol, ac ni chyflawnwyd hyn hyd yma. Dylid defnyddio'r broses o fabwysiadu Blaenoriaethau'r Weinyddiaeth a'r broses o ddatblygu rhaglen Dyfodol Sir y Fflint i helpu yn hyn o beth.

58 Mae gan y Cyngor strategaeth gyfalaf wedi'i diffinio'n dda a Chynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a gymeradwywyd yn ddiweddar. Caiff rhagor o waith ar wneud y defnydd gorau o asedau ei gynnwys yn elfen 'newid' rhaglen Dyfodol Sir y Fflint.

59 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth TGCh sy'n nodi sut y caiff TGCh ei defnyddio i ategu gwelliant er nad yw'n canolbwyntio'n benodol ar amcanion y Cyngor.

**Mae prosesau busnes wedi gwella'n sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf ond mae lle i'w datblygu ymhellach er mwyn cefnogi gwelliant yn fwy effeithiol**

60 Datblygwyd proses SARC ddechrau 2008 ac mae wedi nodi meysydd lle mae angen i'r Cyngor wella a chymryd camau lliniaru yn erbyn risg. Llwyddodd i fodloni ei diben cychwynnol yn dda ac mae wedi galluogi'r Cyngor i roi sylw i faterion allweddol. Mae'r Cyngor bellach wedi nodi bod angen adfywio'r broses yn ystod 2010-11 gan ystyried y disgrifiad



risg cyfan yn hytrach na dim ond y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a ddisgrifiwyd.

**61** Ar ôl cwblhau cam cyntaf y Rhaglen Sefydliadol a Newid, dechreuodd yr ail gam raglen o adolygiadau cynlluniedig o tua 40 o feysydd gweithgaredd. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod sail glir a rhesymegol dros ddewis y meysydd i'w hadolygu ac fe'u cysylltwyd yn briodol â'r risgiau a nodwyd ym mhroses SARC. Ers hynny, cwblhawyd rhai adolygiadau neu gwnaethant gynnydd sydd eisoes wedi arwain at welliant. Mae adolygiadau eraill ar amrywiol gamau datblygu a bu oedi gyda'r amserlenni ar gyfer rhai ohonynt. Mewn rhai achosion, mae hyn yn adlewyrchu'r broses o ailflaenoriaethu gwaith neu achosion o oedi tra'n aros am ganlyniadau'r gwaith ar Statws Sengl neu ddatblygiadau eraill. Mewn rhai achosion, mae'r oedi yn adlewyrchu problemau o ran gallu ac adnoddau ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli prosiect. Bydd rhaglen Dyfodol Sir y Fflint bellach yn darparu fframwaith ychwanegol ar gyfer newid a datblygu sefydliadol yn y dyfodol.

**62** Teimlir bod gwybodaeth monitro perfformiad wedi gwella'n sylweddol ac mae gwaith pellach yn yr arfaeth i gysoni perfformiad â Blaenoriaethau'r Weinyddiaeth. Caiff adroddiadau chwarterol manwl eu llunio ar lefel pennaeth gwasanaeth/is-adran i'w hystyried gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac maent ar gael i'r holl gynghorwyr. Mae'r rhain yn rhoi dadansoddiad naratif o berfformiad ynghyd â data perthnasol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn derbyn adroddiadau chwarterol ar wahân â dadansoddiad o ddata a sylwadau yn ymwneud â dangosyddion unigol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn rhoi fawr ddim naratif ar gynnydd a meysydd allweddol i roi sylw iddynt.

**63** Bu gwelliannau hefyd i gynlluniau cyfarwyddiaethau a gwasanaethau ac yn ein barn ni, mae strwythur a chynnwys cynlluniau yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, ceir rhai anghysondebau ac nid yw rhai o'r amcanion mewn cynlluniau yn cynnwys targedau mesuradwy.

**Er gwaethaf rhai gwelliannau yn y gwasanaeth adnoddau dynol, mae'r trefniadau ar gyfer rheoli pobl yn cynnwys risgiau parhaus a allai atal y Cyngor rhag sicrhau gwelliant**

**64** Datblygodd y Cyngor Strategaeth Pobl ar gyfer 2006-2009 gydag amrywiaeth eang o gynigion wedi'u hanelu at helpu cyflogeion Sir y Fflint i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni gofynion y presennol a'r dyfodol. Roedd yn cynnwys cynlluniau i ymdrin â chostau cyflogi staff dros dro a staff asiantaeth, y broses roedd y Cyngor yn bwriadu ei rhoi ar waith i weithredu'r gofynion Statws Sengl a chynigion i roi system gwybodaeth reoli adnoddau dynol (HRMIS) ar waith. Gwnaed cynnydd mewn perthynas â'r materion hyn gyda'r Datrysiad Staff Asiantaeth a Reolir (MASS) yn dod yn weithredol ym mis Hydref 2008 fel datblygiad a rannwyd gyda Wrecsam a Sir Ddinbych. Mae'r trefniant hwn wedi darparu fframwaith corfforaethol ar gyfer cyflogi staff dros dro a staff asiantaeth ac wedi arwain at arbedion i'r Cyngor.

**65** Aeth gwaith i gyflawni'r gofynion Statws Sengl rhagddo a chymeradwyodd y Cyngor gynigion ym mis Awst 2009. Fodd bynnag, roedd cryn bryder o ran rhai canlyniadau eithafol a chanlyniadau a oedd o bosibl yn anghyson a ddeilliodd o'r gwerthusiadau swyddi. O ganlyniad, penderfynodd cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ym mis Tachwedd 2009 y byddai'r broses o roi'r Cytundeb Statws

Sengl arfaethedig ar waith yn cael ei gohirio tra'n aros am adolygiad o ganlyniadau'r gwerthusiadau swyddi. Mae'r ffaith bod y prosiect wedi cael ei ohirio a'i ad-drefnu wedi cymryd amser ac adnoddau. Mae hefyd wedi gohirio rhai gwelliannau sefydliadol, wedi effeithio ar forâl y staff ac wedi difrodi enw da'r Cyngor. Fodd bynnag, mae gwaith ar yr adolygiad yn mynd rhagddo'n dda. Mae fframwaith yr adolygiad yn seiliedig ar naw ffrwd gwaith wedi'u trefnu i ddau gam. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o gam cyntaf cynllun y prosiect wedi'i gyflawni erbyn diwedd mis Mehefin 2010 gyda'r ail gam yn rhedeg o fis Gorffennaf 2010 hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2010.

66 Mae'r gwaith i roi'r system gwybodaeth reoli ar waith hefyd wedi mynd rhagddo ac mae'r systemau newydd sydd ar waith yn dechrau darparu sylfeini ar gyfer y sail wybodaeth sydd ei hangen er mwyn sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli pobl. Mae diffyg gwybodaeth glir a chywir am y gweithlu wedi'i chyfyngu wedi llesteirio ymagwedd gorfforaethol tuag at gynllunio'r gweithlu er y gwnaed cynnydd mewn rhai gwasanaethau. Sefydlwyd prosiect i adolygu ansawdd y cymorth data ac mae'n ffrwd gwaith 'rhyngddibynnol' o dan y Cynllun Prosiect Statws Sengl diwygiedig. Bydd gwybodaeth gadarn am y gweithlu yn bwysig er mwyn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer ei ofynion staffio yn y dyfodol.

67 Datblygwyd Strategaeth Pobl 2009-2012 newydd er mwyn gwneud mwy o gynnydd gyda'r materion rheoli pobl sy'n wynebu'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys yr angen i gynnwys y gwelliannau a wnaed o dan y strategaeth flaenorol. Er enghraifft, diwygiwyd sawl polisi cyflogaeth allweddol fel rhan o'r strategaeth flaenorol.

68 Mae'r Cyngor, yn arbennig swyddogion y gwasanaeth adnoddau dynol, wedi dangos ymrwymiad cadarnhaol ac wedi ymgysylltu â staff er mwyn newid y diwylliant sy'n gysylltiedig â rheoli staff. Mae amgylchedd yn cael ei feithrin lle y mae rheolwyr gwasanaeth yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am reoli eu staff yn effeithiol. Mae rheolwyr gwasanaeth bellach yn dangos perchenogaeth gadarnach o bolisïau cyflogaeth ac yn eu gweithredu'n well. Dylai'r berchenogaeth hon olygu bod rheolwyr gwasanaeth yn llai dibynnol ar gefnogaeth gan swyddogion adnoddau dynol ar gyfer materion rheoli llinell staff o ddydd i ddydd. Mae Cynllun Gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu i ategu'r strategaeth newydd ond nid yw ar waith eto.

69 Ymhlith y materion y mae'r Cyngor yn ceisio ymdrin â hwy mae'r angen i gynyddu gallu ac adnoddau rheoli newid. Un datblygiad yw'r ffaith bod Rhaglen fach Hyfforddi Rheolwyr wedi'i sefydlu a fydd yn dechrau ym mis Medi 2010.

70 Mae'r broses ar gyfer arfarnu staff wedi gwella ond nid yw'n gwbl effeithiol eto. Er bod nifer ac ansawdd yr arfarniadau perfformiad wedi gwella, mae angen mwy o gynnydd mewn rhai cyfarwyddiaethau.

71 Nododd arolwg o staff y Cyngor a gynhaliwyd yn ystod haf 2009 amrywiaeth o faterion y bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy er mwyn gwneud y defnydd gorau o'i staff i sicrhau gwelliant. Prin oedd y newid ers arolwg a gynhaliwyd yn 2007. Roedd staff yn pryderu am arweinyddiaeth strategol y Cyngor, cydnabyddiaeth i'w gwaith a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae rhai camau gweithredu penodol eisoes wedi'u cymryd mewn ymateb gyda



chamau pellach wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth Pobl a chynlluniau gwasanaethau a chyfarwyddiaethau priodol.